GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(PARK CRESCENT A ROMILLY ROAD, Y BARRI)
(CAU FFORDD) (DROS DRO) 2021

1. Ar 15 Gorffennaf 2021, gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Adran 14 Deddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 Orchymyn a fydd yn gwneud yr hyn a ddisgrifir yn yr atodlenni isod:
2. Enw'r Gorchymyn fydd "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Park Crescent a Romilly Road, Y Barri (Cau Ffordd) (Dros Dro)" 2021 a bydd yn dod i rym ar 19 Gorffennaf 2021.

ATODLEN 1

Caiff y Gorchmynion Traffig Parhaol canlynol eu hatal, yn rhannol, tra bydd y Gorchymyn Traffig Dros Dro hwn ar waith:
Gorchymyn Cyngor Sir De Morgannwg (Strydoedd Oddi Wrth Park Crescent, Y Barri (Un Ffordd) 1991
Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros A Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN 2

Ni fydd unrhyw berson yn gyrru neu'n gadael i gerbyd deithio ar hyd y ffyrdd a nodir yn Atodlen 3 isod.

ATODLEN 3

Lleoliad 1: Bydd **Park Crescent, Y Barri** o'r gyffordd â Jenner Road i'r gyffordd â Porthkerry Road **ar gau i draffig sy'n teithio tua'r gogledd**

Lleoliad 2: **Bydd Romilly Road, Y Barri** o'r gyffordd â Porthkerry Road i'r gyffordd â Park Crescent **ar gau i draffig sy'n teithio tua'r gogledd**

Lleoliad 1: **Kathleen Street, Bell Street, Vale Street, Y Barri - caiff cyfeiriad y System Unffordd i Draffig ei wrthdroi** ac ni chaniateir i gerbydau Deithio ar hyd Park Crescent.

Rheswm: Galluogi Dŵr Cymru i wneud gwaith ar y brif garthffos.

Hyd: Rhwng 7.00am ddydd Llun 19 Gorffennaf 2021 a 6.00pm ddydd Gwener 8 Hydref 2021 neu hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau pa un bynnag yw'r cynharaf.

Llwybr Arall: Bydd gwyriadau lleol ag arwyddion ar waith.

DS: Bydd mynediad i gerddwyr trwy'r amser.

Dyddiad: 16 Gorffennaf 2021.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô, CF5 6AA.